Adran Gwaith a Phensiynau

Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl



# Sylwadau terfynol ar adroddiad cychwynnol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

## Gwybodaeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar ddilyniant i'r sylwadau terfynol

## Medi 2018

## Cynnwys

Cyflwyniad....................................................................................................3

Adran 1: Byw'n annibynnol a chael eich cynnwys yn y gymuned – ymateb i argymhellion ym mharagraff 45 (a-e) y sylwadau terfynol..........................................4

Adran 2: Gwaith a chyflogaeth – ymateb i argymhellion ym mharagraff 57 (a-e) y sylwadau terfynol....................................................................................14

Adran 3: Safon byw a diogelwch cymdeithasol digonol – ymateb i argymhellion ym mharagraff 59 (a-e) y sylwadau terfynol...................................................................23

Adran 4: Gwybodaeth ddilynol ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ym mharagraff 114 adroddiad ei ymchwiliad...................................................................30

**Cyflwyniad**

1. Dyma ymateb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i baragraffau 73 a 74 o'r Sylwadau Terfynol (cyfeirnod y CU CRPD/C/GBR/CO/1), sy'n ymwneud â'r argymhellion a gyflwynir ym mharagraffau 45 (byw'n annibynnol a chael eich cynnwys yn y gymuned), 57 (gwaith a chyflogaeth), 59 (safon byw a diogelwch cymdeithasol digonol) a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn adroddiad ei ymchwiliad yn 2016 (Cyfeirnod y CU CRPD/C/15/4) a gynhaliwyd yn unol ag erthygl 6 y Protocol Dewisol i'r Confensiwn (OP-CRPD).

2. Mae Llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn rhannu ymrwymiad i gefnogi a gwella bywydau pobl anabl. Mae'r ymateb hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch polisïau a gwasanaethau a ddarperir ar lefel genedlaethol, a pholisïau sydd wedi'u datganoli sy'n galluogi'r gweinyddiaethau datganoledig i ddarparu gwasanaethau cyflenwol neu ychwanegol wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag anghenion penodol pobl anabl ledled y DU a Gogledd Iwerddon.

# Adran 1: Byw'n annibynnol a chael eich cynnwys yn y gymuned – ymateb i argymhellion ym mharagraff 45 (a-e) y sylwadau terfynol

## Argymhelliad 45a

3. Mae byw'n annibynnol yn rhan graidd o egwyddor lles Deddf Gofal 2014[1], a wnaeth gyfuno a moderneiddio fframwaith cyfraith gofal a chymorth Lloegr.

4. Mae Deddf Gofal 2014 yn cefnogi rheolaeth unigolyn dros eu bywyd dydd i ddydd, addasrwydd llety byw a chyfraniad at gymdeithas, ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried barn, dymuniadau, teimladau a chredoau pob unigolyn. Mae hefyd yn blaenoriaethu annibyniaeth a lles yn gynnar a thrwy gydol taith ofal unigolyn. Gwneir hyn drwy gymorth a chyngor gwell i unigolion a'u gofalwyr, gwell opsiynau tai a, os oes angen, gwasanaethau i helpu pobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae cyllidebau Comisiynu Personol Integredig a chyllidebau iechyd personol hefyd ar gael i roi rheolaeth i bobl anabl a'r rhai â chyflyrau hirdymor mwy cymhleth dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

5. Mae Deddf Gofal 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr i asesu unrhyw oedolyn ag anghenion gofal a chymorth, ac i ddiwallu anghenion pobl sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n gymwys i gael cymorth, yn seiliedig ar brofion modd. Mewn achosion lle byddai cost gofal yn lleihau incwm pobl yn sylweddol, bydd yr awdurdod yn talu rhywfaint o'r gost.

6. Rydym hefyd wedi ymrwymo i'r egwyddor o wneud penderfyniadau a gefnogir, ac mae'r egwyddor hon wedi'i chynnwys yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gymryd pob cam ymarferol i helpu person i wneud penderfyniad cyn iddynt gael eu trin fel rhywun â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw.

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted

7. Er 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol[2], a fydd yn nodi beth mae'n ei wneud i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol sy'n galluogi. Mae wedi ceisio barn pobl anabl trwy weithdai ac arolwg cyhoeddus. Mae grŵp llywio o randdeiliaid anabledd, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Anabledd Cymru, yn goruchwylio'r adolygiad. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn nodi camau trawsbynciol i'w cynnwys mewn cynllun newydd. Bydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys targedau a threfniadau monitro clir.

8. Datblygwyd y côd ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[3] i ddarparu cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar eu dyletswyddau i geisio hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae hyn yn cyfeirio'n uniongyrchol at y Confensiwn, gan nodi: " ... wrth gynnal swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r UNCRPD".

9. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i wella ansawdd gofal yn yr Alban ac mae'n awyddus i sicrhau bod gan bawb sydd angen gofal fynediad at y safonau gofal uchaf ym mhob sefyllfa, boed yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cartref gofal. Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw'r newid mwyaf arwyddocaol a wnaed i'r ffordd y mae pobl yn derbyn gofal yn eu cymunedau ers creu'r GIG. Mae awdurdodau integredig yn gweithio'n barhaus ar rannu eu gwybodaeth a'u profiadau, gan hefyd ddysgu o'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Erbyn hyn, ar gyfartaledd mae cleientiaid gofal cartref yn derbyn mwy na dwywaith y nifer o oriau gofal a dderbyniwyd ganddynt yn 2000.

10. Mae gan awdurdodau lleol yn yr Alban, fel yr awdurdod tai strategol, gyfrifoldeb dros asesu gofynion tai yn eu hardal a nodi yn y Strategaeth Dai Leol a Chynlluniau Buddsoddi Tai Strategol[4] sut y diwallir y gofynion hyn.

11. Mae gan Lywodraeth yr Alban fframwaith cynllunio tai sefydledig, yr rydym yn ceisio'n barhaus i'w ddatblygu a'i wella. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno, yn y cyfarwyddyd Strategaeth Dai Leol newydd, gofyniad i bob awdurdod lleol gyflwyno targed realistig ar draws yr holl ddeiliadaethau i ddarparu tai hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn. Disgwylir cyhoeddi'r cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer y Strategaeth Dai Leol yn haf 2019, a bydd hefyd yn ystyried cyfrifoldebau

[2] https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy
[3] https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?skip=1&lang=cy
[4] http://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/CurrentCommittees/105204.aspx

cydraddoldeb ehangach awdurdodau lleol, yn ogystal â sut y gall pobl anabl a grwpiau pobl anabl gael mewnbwn ystyrlon i ddatblygiad y Strategaeth Dai Leol.

12. Yng Ngogledd Iwerddon, amcanion canolog gwasanaethau gofal cymunedol[5] yw:
    - Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, neu mewn sefyllfa sydd mor agos at amgylchedd domestig â phosib, am gymaint o amser ag y dymunant a chyhyd â'i fod yn ddiogel ac yn briodol iddynt wneud hynny;
    - Darparu cymorth ymarferol i ofalwyr i'w cefnogi yn eu rôl ofalu;
    - Sicrhau bod gofal preswyl, gofal cartref nyrsio a gofal ysbyty yn cael eu cadw ar gyfer y bobl hynny na ellir diwallu eu hanghenion gofal mewn unrhyw ffordd arall.

13. Mae gan bawb, ni waeth a yw eu hanghenion gofal yn dymor byr neu'n hirdymor ac a yw'r anghenion hyn yn gymhleth ai peidio, yr hawl i fynd at eu Hymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol leol i ddefnyddio'r broses reoli gofal a chael lefelau priodol o gymorth a chyngor yn ôl yr angen. Mae hyn hefyd yn gymwys i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd mewn sefyllfa i dalu am gostau llawn eu gofal cartref neu ofal cartref nyrsio.

14. Mae Deddf Galluedd Meddyliol[6] (Gogledd Iwerddon) 2016 (MCA) wedi'i deddfu gan Gynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016, ond nid yw wedi cychwyn eto. Pan fydd y Ddeddf wedi cychwyn, bydd yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gweithredoedd mewn perthynas â gofal, triniaeth a lles personol i'r rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn ac nad oes ganddynt alluedd i ganiatáu.

## Argymhelliad 45b)

15. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyrdd, erbyn hydref 2018, yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol i oedolion. Yn dilyn arfer gorau o ymgynghori arall, bydd yr holl gynnwys yn hygyrch i bobl anabl. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sy'n cael ei harwain ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gan ganolbwyntio ar oedolion oedran gweithio ag anghenion gofal.

16. Rydym yn rhedeg pum prosiect i werthuso a llywio'r broses o weithredu Deddf Gofal 2014 a darparu gwell dealltwriaeth o sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu Deddf Gofal 2014 mewn perthynas â chynllunio gofal a'r cymorth sy'n hwyluso canlyniadau personoli, dewis, rheolaeth a gofal da. Rydym wedi comisiynu ymchwil

[5] https://www.health-ni.gov.uk/articles/community-care
[6] http://www.legislation.gov.uk/nia/2016/18/contents/enacted

sy'n archwilio gwasanaethau personol, megis prosiect a arweinir gan Brifysgol Birmingham ar 'Lunio canlyniadau personol - sut mae Deddf Gofal 2014 yn hyrwyddo personoli gofal a chymorth', sydd i'w gwblhau ym mis Awst 2019. Bydd y prosiect hefyd yn nodi arfer da, a gwersi y gellir eu rhannu ar draws y sector gofal.

17. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â phobl â phrofiad byw, y sector gwirfoddol a chyrff statudol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymgysylltu'n helaeth â hunan-eiriolwyr sy'n cynrychioli barn a phrofiadau pobl anabl, eu teuluoedd, eu gofalwyr, a sefydliadau cynrychioliadol wrth ddatblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys y Ford Gron Rhanddeiliaid ar Drawsnewid Gofal, y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu, y Gynghrair Iechyd a Lles, a'r grwpiau a ffurfiwyd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu diwygiedig i gefnogi'r Strategaeth Awtistiaeth[7].

18. Yn 2015, trosglwyddodd Llywodraeth y DU y Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF), â chyllidebau yn Lloegr i awdurdodau lleol, gan alluogi mwy o benderfyniadau lleol ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grant Byw'n Annibynnol Cymru gwerth £26 miliwn y flwyddyn a oedd yn rhedeg tan fis Mawrth 2018 i alluogi awdurdodau i barhau i gefnogi'r taliadau i gyn-dderbynwyr ILF yng Nghymru.

19. Ar ôl ymgysylltiad dilynol â chynrychiolwyr rhanddeiliaid, yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y diwallir anghenion cymorth holl gyn-dderbynwyr ILF erbyn 31 Mawrth 2019 trwy asesiad gofal cymdeithasol a darpariaeth yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[8]. Caiff anghenion pobl anabl eu hasesu yn ôl y canlyniadau lles maent eu heisiau, gan gynnwys eu dymuniad i fyw'n annibynnol, a chytunir ar gynllun gofal a chymorth ar gyfer y dyfodol i ddiwallu'r rhain. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £27 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol o 2018-19 ymlaen i'w weithredu.

20. Yn yr Alban, mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF), a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU, yn cynorthwyo 2,400 o bobl ar hyn o bryd. Agorwyd cronfa newydd, Cynllun Pontio ILF, yn 2017 i gefnogi pobl anabl ifanc wrth iddynt ddod i mewn i fyd oedolion annibynnol. Datblygwyd y gronfa drwy waith ar y cyd rhwng Llywodraeth yr Alban a phobl anabl, gan gynnwys pobl ifanc a'u sefydliadau, ac ar hyn o bryd mae'n ariannu mwy na 400 o bobl ifanc.

21. Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio i waredu'r gwahaniaeth o ran argaeledd gofal personol am ddim rhwng pobl dros 65 oed ac o dan 65 oed, gan ymestyn yn llawn gofal personol am ddim i bobl dan 65 oed ym mis Ebrill 2019.

[7] https://www.gov.uk/government/publications/think-autism-strategy-governance-refresh-2018
[8] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted

22. Mae'r Adran Iechyd, drwy gytundeb rhyng-lywodraethol â Llywodraeth yr Alban, drwy ILF Scotland, yn parhau i sicrhau bod taliadau ILF yn cael eu gwneud i bobl ag anableddau difrifol sydd ag anghenion gofal dwys yng Ngogledd Iwerddon. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am naill ai staff gofal asiantaeth neu i'r derbynnydd gyflogi cynorthwyydd personol ai hun.

## Argymhelliad 45c

23. Yn 2016/17, gwariodd Llywodraeth y DU £16.8 biliwn ar gyllid gofal cymdeithasol, a ddarperir trwy awdurdodau lleol. Yn Lloegr, trefnwyd bod £9.4 biliwn ychwanegol ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol rhwng 2017/18 a 2019/20. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol a bydd yn sicrhau y gall cynghorau gynyddu gallu'r system gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl ag anableddau. Mae'r arian hwn yn cynnwys:
    - Grant Better Care Fund gwell, a ddarperir i wella gwasanaethau lleol sydd wedi'u targedu at bobl hŷn a phobl agored i niwed, a fydd gwerth £1.5 biliwn yn 2019/20.
    - Praesept gofal cymdeithasol newydd i oedolion, sy'n galluogi cynghorau i gynyddu'r dreth gyngor o hyd at 3% yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2018/19.
    - Grant Gofal Cymdeithasol Oedolion gwerth £240 miliwn yn 2017/18, yn deillio o arbedion a wnaed o ddiwygio'r Bonws Cartrefi Newydd.
    - Cyhoeddwyd £2 biliwn ychwanegol yng Nghyllideb y Gwanwyn 2017 i gynghorau ei wario ar ofal cymdeithasol.
    - Grant Cymorth Gofal Cymdeithasol Oedolion arall gwerth £150 miliwn yn 2018/19. Caiff y grant ei ddyrannu yn ôl anghenion cymharol a bydd yn helpu ymhellach i gefnogi'r farchnad gofal.

24. Mae tai â chymorth yn helpu i roi sail i rwymedigaeth y Llywodraeth i gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl ag anghenion cymorth. I ddeall y ffordd orau o ariannu'r sector tai â chymorth, mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi ymgynghori a gweithio'n agos â'r sector, gan geisio barn ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cynrychioli pobl anabl, ynghylch y model ariannu ar gyfer y sector hwn. Cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb ym mis Awst 2018 i'r ymgynghoriad cynharach. Cadarnhaodd hyn y bydd cyllid am gostau tai ar gyfer yr holl lety â chymorth, gan gynnwys llety ar gyfer pobl anabl, yn parhau yn y system les, ochr yn ochr â datblygu goruchwyliaeth ychwanegol a chadarn y sector i ddarparu ansawdd a gwerth am arian. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hyn yn cadarnhau ei hymrwymiad clir i sefydlu trefniadau ariannu cynaliadwy ar gyfer tai â chymorth.

25. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod rôl hanfodol cymhorthion ac addasiadau wrth ganiatáu i bobl anabl fyw'n ddiogel ac yn annibynnol. Yn Lloegr, mae cyllid ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl[9] (DFG), sy'n cefnogi pobl hŷn ac anabl ar incwm isel i addasu eu cartrefi i'w gwneud yn ddiogel ac yn addas ar gyfer eu hanghenion, megis gosod lifftiau grisiau, rampiau neu addasiadau ymolchi, wedi cynyddu o £220 miliwn yn 2015/16. Darparodd Cyllideb Hydref 2017 £42 miliwn ychwanegol ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2017/18, sy'n gyfanswm o £473 miliwn. Y cyllid ar gyfer y DFG oedd £468 miliwn yn 2018/19, a bydd yn codi ymhellach i £505 miliwn erbyn 2019/20. Mae pobl anabl yn derbyn y cyllid hwn drwy eu cyngor lleol.

26. Yn 2018-19, mae pecyn cyffredinol Llywodraeth yr Alban o fuddsoddiad uniongyrchol ychwanegol mewn gofal cymdeithasol ac integreiddio yn dod i gyfanswm o dros £550 miliwn. Mae gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion oddeutu £3 biliwn y flwyddyn, o fewn yr £8.5 biliwn o gyllid cyffredinol ar gyfer gwasanaethau lleol, y mae'r Awdurdodau Integreiddio bellach yn gyfrifol amdanynt ac a reolwyd ar wahân gynt gan Fyrddau GIG ac Awdurdodau Lleol.

27. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn i wella cwantwm yr ILF o gyllid a etifeddwyd gan Lywodraeth y DU er 2015.

28. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu:
    - Bron £32.5 miliwn yn 2016/17 i awdurdodau lleol ar gyfer DFG trwy Grant Cyfalaf Cyffredinol i helpu i addasu cartrefi ar gyfer pobl anabl.
    - £4 miliwn yn 2018/19 i awdurdodau lleol ar gyfer 'GALLUOGI - Cymorth i Fyw'n Annibynnol' i wella cymorth i bobl anabl sydd am fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

29. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl[10] yng Nghymru yn helpu pobl anabl i ddod o hyd i gartref neu lety ac i fyw mor annibynnol â phosib, er enghraifft trwy ariannu gwely mewn llety â chymorth neu weithiwr cymorth. Mae awdurdodau lleol yn gweinyddu'r grant. Roedd y gwariant ar gyfer 2017/18 yn cynnwys £29.4 miliwn ar wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, £1.4 miliwn ar gyfer pobl ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd ac £13.4 miliwn ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl.

30. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd yn bwrw ymlaen â diwygio gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion. Mae hyn yn ymestyn i wasanaethau megis cymorth hunangyfeiriedig, gofal cartref, gofal preswyl a gofal cartref nyrsio.

[9] https://www.gov.uk/disabled-facilities-grants
[10] https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?skip=1&lang=cy

Er mwyn llywio'r broses hon, bwriedir cynnal sgwrs fawr â'r cyhoedd ehangach ar faterion allweddol megis agweddau at oedran, anabledd, annibyniaeth a risg.

31. Lansiodd Llywodraeth Gogledd Iwerddon yr Adolygiad Rhyngadrannol o Wasanaethau Addasiadau Tai yn 2010. Cyn cwblhau'r adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu, gwnaed gwaith sylweddol â phobl ag anableddau, therapyddion galwedigaethol, dylunwyr tai a darparwyr, ac mae hyn wedi arwain at symud rhai camau ymlaen lle cafwyd cefnogaeth eang.

32. Nod y Rhaglen Cefnogi Pobl[11] yng Ngogledd Iwerddon yw darparu:
    - ansawdd bywyd gwell i bobl sy'n agored i niwed fyw'n fwy annibynnol a chynnal eu tenantiaethau;
    - cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn atal problemau a all arwain yn aml at aros mewn ysbyty, gofal sefydliadol neu ddigartrefedd;
    - cymorth i hwyluso'r newid i fyw'n annibynnol ar gyfer y rhai sy'n gadael amgylchedd sefydliadol.

33. Cyflawnir y Rhaglen gwerth £72.8 miliwn (2018/19) gan y Weithrediaeth Tai, ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi dros 18,500 o bobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cymorth tai.

34. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn seiliedig ar lety sy'n darparu gwasanaethau llety a chymorth tai mewn un lleoliad, a all fod yn hostel, tai gwarchod neu fath arall o lety tai â chymorth. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn dod o'r sector cymunedol a gwirfoddol, a Chymdeithasau Tai yw landlordiaid eu llety. Caiff nifer o wasanaethau llety, yn arbennig ar gyfer y rhai ag anableddau ac ar gyfer pobl hŷn ag anghenion arbennig, eu comisiynu ar y cyd ag Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

35. Yng Ngogledd Iwerddon, y gyllideb yn 2017/18 ar gyfer DFG oedd £9.5 miliwn, a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 yw £9.5 miliwn.

36. Mae cynllun Ad-daliad Ardrethi'r Adran Gyllid yn disodli system gymorth ardethi a dalwyd yn flaenorol trwy Fudd-dal Tai. Fe'i sefydlwyd yn 2017/18 mewn ymateb i ddiwygio lles a chyflwyno Credyd Cynhwysol (UC). Mae pobl anabl sy'n derbyn UC yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun newydd hwn, yn dibynnu ar eu hincwm.

[11] https://www.nihe.gov.uk/iisengine/cmengine.dll/2/index/advice/supporting_people.htm

# Argymhelliad 45d

37. Mae byw'n annibynnol yn ganolog i egwyddor lles Deddf Gofal 2014, fel y'i nodir ym mharagraffau 3 i 6 uchod.

38. Nod y rhaglen Trawsnewid Gofal[12] yw gwella canlyniadau iechyd ac ansawdd bywyd i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, gan gynnwys y rhai â chyflwr iechyd meddwl, sydd ag ymddygiad heriol. Ei ffocws yw gwella cymorth yn y gymuned, fel bod pobl yn llai tebygol o gael eu derbyn fel cleifion preswyl oherwydd eu hanabledd dysgu, a rhyddhau cleifion preswyl arhosiad hir i'r gymuned.

39. Gosododd ‘Adeiladu'r Cymorth Cywir (2015)[13]' darged o ostyngiad o 35-50% erbyn Mawrth 2019 yn y nifer o bobl ag anabledd dysgu o bob oedran sy'n gleifion preswyl. Cyfanswm y cleifion preswyl ar ddiwedd mis Mai oedd 2,400, sy'n ostyngiad o 16.5% er 2015.

40. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael yn benodol â ffactorau sy'n golygu bod pobl yn cael eu derbyn yn ddiangen fel cleifion preswyl, ond mae hefyd yn ategu rhaglenni eraill sy'n creu cymorth iechyd, addysg a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, ac yn cynyddu cyfran y bobl ag anableddau dysgu sydd mewn cyflogaeth.

41. Mae'r Ford Gron Rhanddeiliaid ar Drawsnewid Gofal, sy'n ganolog i'r broses sicrhau Trawsnewid Gofal, yn cynnwys hunan-eiriolwyr, cynhalwyr, aelodau'r teulu a sefydliadau sy'n cynrychioli profiad byw pobl ag anableddau.

42. Mae'r DFG yn helpu pobl i fod mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain, gan eu galluogi i barhau yn rhan o'u cymuned. Trwy sicrhau bod cartref person yn ddiogel ac yn addas, gall gefnogi rhyddhau pobl yn gyflymach o'r ysbyty, lleihau derbyniadau i'r ysbyty, a lleihau a/neu oedi angen gofal, gan gynnwys yr angen i symud i ofal preswyl.

43. Cwblhawyd adolygiad annibynnol o'r DFG yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2018. Cwmpas yr adolygiad oedd asesu sut mae'r DFG yn gweithio ar hyn o bryd, a gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth ar sut y gallai newid yn y dyfodol. Roedd digwyddiadau ymgynghori yn caniatáu i bartïon â diddordeb gyfrannu at yr adolygiad. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ystyried argymhellion yr adroddiad.

[12] https://www.england.nhs.uk/learning-disabilities/care/
[13] https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/10/ld-nat-imp-plan-oct15.pdf

44. Datblygwyd y Strategaeth Anabledd a Chynllun Gweithredu Anabledd Corfforol a Synhwyraidd[14] i helpu i gyflawni a gwella canlyniadau, gwasanaethau a chymorth i bobl yng Ngogledd Iwerddon sydd ag anabledd corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd. Ei bwriad yw darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau i bobl anabl ymhellach. Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ag anghenion pob grŵp oedran, ni waeth beth yw eu hanabledd. Yn unol ag erthyglau ac egwyddorion y Confensiwn, mae'n hyrwyddo urddas a pharch at wahaniaethau unigol, cynhwysiant cymdeithasol a derbyn yr unigolyn gan gymdeithas, annibyniaeth a chyfleoedd bywyd, dewisiadau gwybodus, gwrthwahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau a chyfle cyfartal, a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

45. Mae Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon (NIHE) yn cynnal arolygon parhaus ar draws eu holl wasanaethau, gan gynnwys y DFG. Mae'r adborth yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ond mae amserlenni ar gyfer gweithredu yn destun pryder. Yn ystod blynyddoedd diweddar mae NIHE wedi cychwyn ar Raglen Taith i Ragoriaeth[15] i wella a symleiddio eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Rhan o'r rhaglen hon yw adolygu'r broses DFG i nodi a rhoi gwelliannau parhaus ar waith wrth weinyddu grantiau i gwsmeriaid.

46. Dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygiad traws-lywodraethol o bolisi, gwasanaethau a chyllid anabledd dysgu yng Nghymru ym mis Chwefror 2017 i nodi lle y gellid cymryd camau i adeiladu ar arfer da presennol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â thros 2,000 o bobl.

47. Gwnaeth yr adolygiad argymhellion mewn pum maes: Blynyddoedd Cynnar; Tai; Gofal Cymdeithasol; Iechyd a Lles; ac Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau. Mae Cabinet Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adolygiad, a chyn hir bydd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.

48. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo rôl cymorth anghlinigol mewn model cymdeithasol o iechyd a lles. Fel rhan o'r agenda hon, mae'n ymrwymedig i gyflwyno cynllun peilot rhagnodi cymdeithasol ar gyfer iechyd meddwl, er mwyn cysylltu pobl â phroblemau iechyd meddwl â chymorth yn y gymuned.

49. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Strategaeth Iechyd Meddwl 10 mlynedd[16] ym mis Mawrth 2017. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno dyhead y Llywodraeth i weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol, ac mae'n cynnwys set gychwynnol o 40 o gamau gweithredu. Mae'nt yn cynnwys gwaith sy'n cyfrannu

[14] https://www.health-ni.gov.uk/publications/physical-and-sensory-disability-strategy-and-action-plan
[15] https://www.nihe.gov.uk/customer_excellence_strategy.pdf
[16] https://www.gov.scot/Publications/2017/03/1750

at newid systemau cyfan, trawsnewid gofal sylfaenol a sut y gall cyflogwyr gefnogi gweithwyr sy'n dioddef gan iechyd meddwl gwael. Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hawliau dynol fel thema, ac yn hyn o beth mae wedi ymrwymo i gamau gweithredu o ran adolygu agweddau amrywiol ar ddeddfwriaeth iechyd meddwl ac analluogrwydd.

## Argymhelliad 45e

50. Mae cynlluniau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar gyfer gofal cymdeithasol yn ystyried anghenion pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol.

51. Cytunir ar gostau anghenion gofal y dyfodol trwy drafodaethau adolygiad o wariant â Thrysorlys EM; yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ac fe'u diwallir trwy gymysgedd o grant canolog, trosglwyddo yn y GIG, treth y cyngor ac ardrethi busnes.

52. Rydym yn monitro risg yn rheolaidd yn y system gofal cymdeithasol, gan gynnwys cysylltiadau posib â chyllid, ac yn ymateb i hyn gan weithio ar draws y Llywodraeth. Yn ogystal, rydym yn gweithio â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i fonitro'n effeithiol defnydd awdurdodau lleol o gyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn y cyfnod Adolygiad o Wariant hwn, er mwyn deall effaith hyn ar y sector yn well.

# Adran 2: Gwaith a chyflogaeth – ymateb i argymhellion ym mharagraff 57 (a-e) y sylwadau terfynol

## Argymhelliad 57a

53. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl anabl i gyrraedd eu potensial. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i gael miliwn yn fwy o bobl anabl mewn swyddi dros y ddeng mlynedd nesaf. Mae hyn yn golygu cefnogi pobl sy'n gallu gweithio i aros mewn gwaith neu i enill swydd.

54. Mae ein polisïau a chymorth cyflogaeth yn profi'n effeithiol - cynyddodd y nifer o bobl anabl sy'n gweithio yn y DU bron 600,000 mewn pedair blynedd, i gyrraedd oddeutu 3.5 miliwn yn 2017.

55. Er mwyn helpu i gyrraedd y targed o un miliwn, yn 2015 sefydlwyd uned adrannol ar y cyd rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i oruchwylio cyflawniad llwyddiannus yr ymrwymiad hwn ac i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig ar draws y sectorau lles, gweithle ac iechyd.

56. Cyflwynom hefyd ein Pecyn Cymorth Personol[17], sy'n ehangu ac yn gwella cymorth ar gyfer pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd. Mae enghreifftiau yn y paragraffau dilynol. Mae'n cynnwys £330 miliwn o gyllid dros bedair blynedd o fis Ebrill 2017 ar gyfer ystod o ymyriadau newydd sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i hawlwyr unigol.

57. Mae swyddfeydd lleol, sy'n darparu cymorth a lles cyflogaeth (Canolfannau Gwaith) wedi recriwtio 300 o gynghorwyr cyflogaeth ychwanegol ym maes anabledd i ddarparu cymorth wedi'i deilwra, ar y safle i bobl anabl. Yn ogystal, rydym wedi recriwtio 200 o Bartneriaid Cymunedol, a'u diben yw cryfhau cysylltiadau lleol â chyflogwyr a gwasanaethau i gynorthwyo pobl anabl i gael cyflogaeth.

---

[17] https://www.gov.scot/Publications/2017/03/1750

58. Rydym wedi cyflwyno'r Sgwrs Iechyd a Gwaith ar gyfer hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), ac fe'i defnyddir yn hyblyg ar gyfer cwsmeriaid UC. Mae'r Sgwrs Iechyd a Gwaith yn helpu'r hyfforddwr gwaith i feithrin cydberthynas â'r hawlydd. Mae'n sgwrs seiliedig ar hawlwyr sy'n cynnwys offer i helpu hawlwyr i gynllunio ar gyfer nod sy'n bwysig iddyn nhw ac i adeiladu eu cymhelliant i'w gyflawni.

59. Mae gan y Rhaglen Gwaith ac Iechyd gyfanswm gwerth contract o oddeutu £500 miliwn o 2018 i 2023 i gynorthwyo pobl anabl i gael gwaith parhaus.

60. Gwnaethom hefyd wario £104 miliwn ar y cynllun Mynediad i Waith[18] a arweinir gan alw yn 2016/17 - i fyny o £96 miliwn yn 2015/16. Mae Mynediad i Waith yn darparu grant wedi'i deilwra ar gyfer cyfarpar, addasiadau neu gynorthwywyr personol i'r rhai sy'n gymwys fel bo gan bobl anabl yr un cyfleoedd mynediad i waith â phawb arall. Bu cynnydd o 8% yn y nifer o fuddiolwyr, i fwy na 25,000, yn y cyfnod hwn.

61. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddom Gronfa Technoleg Mynediad i Waith, a fydd yn ildio'r cyfraniad gorfodol a oedd yn ofynnol i gyflogwyr canolig a mawr ei dalu tuag at gost technoleg gynorthwyol yr oedd ei hangen ar weithwyr anabl. Mae hyn yn annog ymgysylltu â'r cynllun Mynediad i Waith, yn helpu cyflogwyr i wneud arbedion sylweddol ac yn cynyddu'r galw a'r cyllid ar gyfer y farchnad, gan helpu i hwyluso'r modd y gall cyflogeion anabl gael cyfarpar angenrheidiol.

62. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cefnogi creu mwy o gyfleoedd gwaith ar gyfer pobl anabl trwy weithio â chyflogwyr ac entrepreneuriaid. Mae ein Cynnig Cyflogwr Bach yn helpu ac yn annog cyflogwyr bach lleol i gynnig cyfleoedd gwaith i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae cymorth mewn gwaith ar gael i'r cyflogwr a'r gweithiwr, ac mae dros £3 miliwn y flwyddyn wedi'i hymrwymo o fis Ebrill 2017 tan fis Mawrth 2019. Mae'r Lwfans Menter Newydd[19] yn darparu cymorth mentora am ddim ac mae wedi helpu oddeutu 25,250 o bobl anabl i ddechrau eu busnes eu hunain, â chyllid o hyd at £30 miliwn y flwyddyn tan fis Mawrth 2020.

63. Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd[20] yn rhoi'r offer i gyflogwyr i recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr anabl yn hyderus. Mae dros 7,000 o gyflogwyr wedi ymuno â Hyderus o ran Anabledd. Mae pob un o brif adrannau'r Llywodraeth wedi cyflawni Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd, a 70% o awdurdodau lleol. Arloesiad diweddar oedd sefydlu cyfres o ddigwyddiadau Thematig Arbenigol, lle mae Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad ar bynciau penodol â chyflogwyr eraill sy'n Hyderus o ran Anabledd, sy'n cynnwys iechyd meddwl, addasiadau yn y gweithle a recriwtio, ag eraill i'w dilyn.

---

[18] https://www.gov.uk/access-to-work
[19] https://www.gov.uk/government/collections/new-enterprise-allowance-campaign
[20] https://www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign

64. Mae gennym nifer o astudiaethau achos cadarnhaol ynghylch Hyderus o ran Anabledd, gan gynnwys un o Fujitsu sy'n dweud: Ers dod yn hyderus o ran anabledd, mae Fujitsu wedi cynyddu'r nifer o bobl ag anableddau'n sylweddol ar ei raglen recriwtio graddedigion - mis Medi diwethaf roedd gan 20% o'r garfan anableddau. Mae Fujitsu hefyd wedi gweld cynnydd yn y nifer o weithwyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, sy'n caniatáu i'r cwmni ddarparu addasiadau neu gymorth yn well.

65. Rydym yn buddsoddi hyd at £115 miliwn mewn adeiladu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi pobl i ennill swydd. Mae hyn yn cynnwys: mwy na dyblu'r nifer o Gynghorwyr Cyflogaeth mewn Gwella Mynediad i Wasanaethau Therapïau Seicolegol; Tri-work: Profiad Gwaith â Chymorth mewn Ysgolion, sy'n darparu lleoliad profiad gwaith â chymorth o hyd at bythefnos i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 neu 11 sydd ag anghenion addysgol arbennig; treialon iechyd meddwl; a'r Gronfa Arloesi Gwaith ac Iechyd.

66. Mae iechyd meddwl gwael yn costio rhwng £74 biliwn a £99 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, a rhwng £33 biliwn a £42 biliwn y flwyddyn i gyflogwyr. Ffynnu yn y Gwaith: Mae'r Adolygiad Stevenson/Farmer o Iechyd Meddwl yn nodi achos busnes ar gyfer gweithredu ac mae'n argymell y dylai pob cyflogwr fabwysiadu safonau iechyd meddwl i annog diwylliant sefydliadol agored a thryloyw sy'n cefnogi iechyd meddwl gweithwyr. Croesawodd y Prif Weinidog yr adolygiad, a gwnaeth ymrwymiad i'r Gwasanaeth Sifil a GIG Lloegr gydymffurfio â'r argymhellion.

67. Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru[21], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn canolbwyntio ar: gymorth cyflogaeth unigol, cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff, cau bylchau mewn sgiliau a pharatoi ar gyfer marchnad lafur sy'n newid yn sylweddol. Mae'r Cynllun yn ymrwymo i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n creu gweithleoedd cynhwysol a chefnogol ar gyfer pobl anabl.

68. Ymrwymwodd Llywodraeth yr Alban i leihau, gan o leiaf hanner, y bwlch cyflogaeth rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth o oedran gweithio yn ei chyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2016, 'A Fairer Scotland for Disabled People[22]'. Trwy gydol 2017 mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgysylltu'n helaeth â phobl anabl, eu sefydliadau cynrychioliadol a chyflogwyr, a arweiniodd at gyngres fawr ar Anabledd, Cyflogaeth a'r Gweithle. Rydym yn ymgynghori ar gynyddu cyflogaeth pobl anabl yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys archwilio gosod targedau.

---

21 https://gov.wales/docs/dcells/publications/180319-employability-plan-en.pdf
22 http://www.gov.scot/Publications/2016/12/3778

69. Mae Cymorth Iechyd a Gwaith yn gynllun peilot dwy flynedd yn Fife a Dundee sy'n dechrau yn 2018, i dreialu atebion newydd i wella canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, yn arbennig y rhai sy'n cael trafferth i aros yn y gwaith neu sydd wedi colli swydd yn ddiweddar.

70. Bydd Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cyflogaeth Traws-Lywodraethol ar Anabledd yn hydref 2018. Datblygir hyn ochr yn ochr â sefydliadau pobl anabl, awdurdodau lleol ac undebau. Bydd y cynllun yn ymdrin â chamau gweithredu polisi penodol sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd a rhai ehangach megis gwella cludiant cyhoeddus hygyrch. Yn ogystal, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo £1 miliwn i sicrhau bod gan gyflogwyr yn yr Alban y sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar y gronfa helaeth o ddoniau sy'n bodoli yng nghymuned anabl yr Alban.

71. O 1 Ebrill 2018, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ei gwasanaeth cyflogadwyedd newydd, Fair Start Scotland. Cynllunir y gwasanaeth i roi cymorth wedi'i deilwra i unigolion sydd am gael help i ddod o hyd i waith ac aros yn y gwaith, ac y mae gwaith yn amcan rhesymol iddynt. Mae'r gwasanaeth yn hollol wirfoddol ac nid oes cosbau i unrhyw un sy'n dewis peidio â chymryd rhan. Mae pobl anabl yn grŵp targed allweddol ar gyfer ein gwasanaeth newydd ac rydym yn falch o'r gyfradd o atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud i Dechrau'n Deg yr Alban ledled y wlad. Nod y gwasanaeth yw cynorthwyo o leiaf 38,000 o bobl dros dair blynedd o atgyfeiriadau, â phobl anabl yn grŵp blaenoriaeth.

72. Mae Llywodraeth yr Alban wedi rhedeg rhaglen interniaeth ar gyfer ymgeiswyr anabl ers 2015, ac mae wedi ymrwymo i'w rhedeg tan 2021. Mae'r rhaglen wedi denu ymgeiswyr o safon uchel, ac mae llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i swyddi parhaol.

## Argymhelliad 57b

73. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010[23] yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â swydd gweithwyr anabl lle gellir disgwyl yn rhesymol bod y cyflogwr yn gwybod am yr anabledd. Mae'r addasiadau hyn yn helpu i sicrhau nad yw gweithwyr anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cydweithwyr nad ydynt yn anabl. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd[24] 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004 yn cwmpasu hyn.

[23] https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance
[24] https://www.nidirect.gov.uk/articles/employment-rights-and-disability-discrimination-act

74. Mae'r diffiniad o gyflogaeth yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eang, ac mae'r dyletswyddau perthnasol yn gymwys nid yn unig i weithwyr yn yr ystyr cul, ond hefyd i ymgeiswyr am swyddi, cyfweleion ac i gategorïau pellach o bobl megis bargyfreithwyr a phartneriaid. Byddai methiant cyflogwr i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer weithiwr neu ymgeisydd swydd sy'n anabl, neu wrthod cais am swydd am fod yr ymgeisydd yn anabl, yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

75. Mae'r ddyletswydd ar gyflogwyr ym Mhrydain Fawr i wneud addasiadau rhesymol hefyd yn ymestyn i nodweddion ffisegol y gweithle ei hun, megis hygyrchedd i'r gweithle a'r cyfleusterau sydd ar gael i weithwyr.

76. Mae'r Llywodraeth wedi cynnal adolygiad i fesurau diogelu rhag gwahaniaethu yn y gweithle sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar bobl sydd â chyflyrau cymedrol i gyfnewidiol a chyflyrau eraill nad ydynt yn bodloni'r diffiniad presennol o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Erbyn hyn rydym yn datblygu cynigion, a bydd cyhoeddiadau pellach maes o law.

77. Mae Llywodraeth y DU wedi trefnu bod cyfarwyddyd[25] ar gael i gyflogwyr a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar eu cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth. Yn ogystal â helpu cyflogwyr i fod yn fwy hyderus o ran anabledd, mae cyfarwyddyd[26] i gynyddu eu dealltwriaeth o anabledd a'u dyletswyddau, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt, megis Mynediad i Waith, a all helpu tuag at gostau gwneud addasiadau rhesymol.

78. Mae cyfarwyddyd pellach[27] hefyd ar gael i gyflogwyr a gweithwyr ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth drwy'r corff cydraddoldeb cenedlaethol annibynnol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). Mae cyfarwyddyd hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS), a chymorth cwmni wrth gwmni drwy'r canolbwynt arfer gorau.

79. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu unioni ar gyfer unigolion sydd wedi bod yn destun gwahaniaethu yn y gweithle oherwydd anabledd. Gall hyn gynnwys anabledd canfyddedig, hyd yn oed os nad yw'r unigolyn yn anabl mewn gwirionedd, neu wahaniaethu oherwydd cysylltiad unigolyn ag unigolyn anabl. Mae unioni hefyd ar gael lle nad yw cyflogwr wedi cyflawni'i ddyletswydd i ddarparu

[25] https://www.gov.uk/government/publications/equality-act-guidance
[26] https://www.gov.uk/government/publications/employing-disabled-people-and-people-with-health-conditions/employing-disabled-people-and-people-with-health-conditions
[27] https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/equality-act-guidance

addasiadau rhesymol. Mewn achosion o'r fath, gall yr unigolyn anabl wneud hawliad gwahaniaethu i Dribiwnlys Cyflogaeth.

80. Mae'r EHRC yn gweithredu i wella gorfodi'r ddyletswydd addasiadau rhesymol yn erbyn cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio. Gall yr EHRC hefyd gymryd camau cyfreithiol yn erbyn cyflogwyr lle ceir tystiolaeth o dorri'r gyfraith yn systematig. Mae wedi lansio prosiect cymorth cyfreithiol i helpu unigolion sydd wedi dioddef gwahaniaethu ar sail anabledd i ddilyn eu hawliadau a cheisio cyfiawnder. Yn rhan o'r prosiect hwn, darparwyd £189,000 ar gyfer cymorth cyfreithiol ar draws 94 o achosion mewn meysydd yn cynnwys cyflogaeth, addysg a gwasanaethau cyhoeddus. Mae adolygiad o'r EHRC yn ystyried pwerau'r Comisiwn ac a ydynt yn dal i fod yn briodol. Caiff adroddiad ei gyhoeddi maes o law. Hefyd mae'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau wedi lansio ymchwiliad i orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010, gan alw am dystiolaeth tan fis Hydref 2018[28].

81. Mae llinell gymorth y Gwasanaeth Cymorth Cydraddoldeb a Chynghorol (EASS) yn rhoi cyngor pwrpasol am ddim a chymorth manwl i unigolion ag unrhyw bryderon ynghylch gwahaniaethu. Mae gan yr EASS a'r EHRC Femorandwm o Ddealltwriaeth sy'n cwmpasu cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad a sut maent yn gweithio mewn partneriaeth. Yn ogystal, mae ACAS yn darparu cyngor awdurdodol a diduedd mewn perthynas â gwahaniaethu ym maes cyflogaeth, ac mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

## Argymhelliad 57c

82. Mae'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) yn asesiad gweithredol sy'n pennu cymhwysedd unigolyn ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r elfennau iechyd cyfatebol ar gyfer UC. Mae'n offeryn asesu sy'n cydnabod ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol sy'n effeithio ar allu unigolyn i wneud gwaith neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw'n seiliedig ar gyflwr.

83. Rydym yn parhau i gyflwyno gwelliannau i'r WCA yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygiadau annibynnol. Mae'r cyhoeddiad diweddar 'Gwella Bywydau: Dyfodol Iechyd, Gwaith ac Anabledd[29]' yn cyflwyno ein gweledigaeth a'r camau nesaf i gefnogi'r bobl orau i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom ymgynghori ar ddiwygio'r WCA, ond nid oedd consensws ynghylch y model cywir ar gyfer diwygio'r WCA. Byddwn yn

[28] https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/women-and-equalities-committee/news-parliament-2017/enforcing-the-equality-act-launch-17-19/
[29] https://www.gov.uk/government/publications/improving-lives-the-future-of-work-health-and-disability

canolbwyntio, felly, ar brofi ymagweddau newydd at adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer diwygio yn y dyfodol.

84. Mae'r WCA yn cyd-fynd â model cymdeithasol anabledd am ei fod wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth bod y rhwystrau i waith yn gymdeithasol; felly, gall y rhai â gallu gweithredol uwchben trothwy penodol weithio (gyda'r cymorth a chyfleoedd cywir). Mae'r DWP yn cyhoeddi canllaw ar-lein i helpu pobl i ddeall sut rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac mae'n cynnwys peth o'r cyfarwyddyd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud yr asesiad[30].

85. Defnyddir yr WCA i benderfynu a oes gan yr hawlydd allu cyfyngedig i weithio, neu allu cyfyngedig ar gyfer gwaith a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, neu a yw'n ffit i weithio.

86. Mae hawlwyr sy'n cael eu hasesu fel nad ydynt yn gallu ymgymryd â gwaith a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth ESA neu'r UC cyfwerth, ac nid ydynt yn amodol ar unrhyw weithgarwch neu sancsiynau sy'n gysylltiedig â gwaith.

87. Mae hawlwyr sy'n gallu gwneud rhywfaint o weithgarwch cysylltiedig â gwaith yn cael eu rhoi yn y grŵp gweithgarwch cysylltiedig â gwaith neu'r UC cyfwerth. Nid yw'n ofynnol iddynt chwilio am swydd na derbyn swydd, ond mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu paratoi ar gyfer gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, megis hyfforddiant sgiliau, dysgu ariannol a chyfleoedd cymorth a gwirfoddoli wedi'u teilwra i'r hawlydd.

88. Gall gweithgarwch cysylltiedig â gwaith fod yn un neu fwy o weithgareddau diffiniedig sy'n helpu i symud hawlwyr yn nes at sefyllfa lle gallant fod yn barod i chwilio am a derbyn gwaith yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod ei fod yn wahanol i bob unigolyn a rhaid iddo fod yn briodol ac yn rhesymol, gan gymryd i ystyriaeth eu hamgylchiadau unigol, eu hiechyd corfforol a meddyliol, ac unrhyw broblemau dysgu neu wybyddol sydd ganddynt. Ni ofynnir i hawlwyr ymgymryd ag unrhyw beth sy'n afrealistig neu a allai beryglu eu hiechyd.

89. Ar gyfer y grŵp hwn, yr unig reswm y gellir rhoi sancsiwn yw peidio â mynd i gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith neu ymgysylltu â'r gweithgaredd cysylltiedig â gwaith a gynigir heb reswm da.

[30] https://www.gov.uk/government/publications/work-capability-assessment-handbook-for-healthcare-professionals

90. Nid yw gosod sancsiwn yn rhywbeth rydym yn ei wneud heb feddwl. Rhoddir pob cyfle i hawlwyr esbonio pam eu bod wedi methu bodloni eu gofynion cytunedig ynghylch amodau, cyn gwneud penderfyniad. Bob mis, caiff llai nag 1% o hawlwyr ESA eu cosbi. Mae canran yr hawlwyr ESA â gostyngiad yn eu taliad oherwydd sancsiwn wedi disgyn 0.1 pwynt canran i 0.2% o fis Mehefin 2017.

91. Rydym yn rhoi pwyslais ychwanegol ar ddiogelu derbynyddion ESA neu UC sy'n fwy agored i niwed cyn ystyried sancsiwn. Cyn gwneud cais am sancsiynau, gallwn gynnal ymweliadau cartref ar gyfer hawlwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl neu anabledd dysgu, neu gyflwr sy'n effeithio ar gyfathrebu/gwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth sydd ar gael.

## Argymhelliad 57d

92. Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd y Gweinidog dros Amddiffyn Pobl a Chyn-filwyr i adolygiad o'r cymal cadw yng nghyd-destun Lluoedd Arfog modern. Bydd yr adolygiad yn cychwyn maes o law. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn, a newidiadau polisi ehangach eraill, yn ysbrydoli llofnodwyr eraill i adolygu eu polisïau eu hunain.

93. Mae'r adolygiad yn rhan o ymdrech ehangach i foderneiddio Amddiffyn. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi ymrwymo i strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant[31] sy'n cydnabod anabledd yn y Gwasanaeth Sifil a Phersonél y Lluoedd Arfog. Mae prosiect Pobl Amddiffyn â Salwch Sylweddol (DPSI), a gomisiynwyd ym mis Ebrill 2017, yn ystyried anabledd yn y Lluoedd Arfog a'r angen am newid er mwyn gwireddu potensial o fewn y Lluoedd Arfog.

94. Bydd y prosiect DPSI yn cynorthwyo'r MoD i greu diwylliant cadarnhaol ynghylch anabledd trwy bolisi a chyfarwyddyd; creu rhwydwaith cyfoed wrth gyfoed; hyrwyddo gofal iechyd; ac ymwybyddiaeth a chyfathrebu. Bydd y polisi'n cydnabod anghenion personau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd sydd wedi'u cael diagnosis, neu sy'n gofalu am rywun sydd wedi cael diagnosis, o salwch ac anabledd sy'n deillio ohono.

## Argymhelliad 57e

95. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chyflwyno'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs). Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw sicrhau bod y Nodau wedi'u hymgorffori'n llawn o fewn y fframwaith cynllunio a pherfformiad presennol, ac yn

[31] https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-defence/about/recruitment

arbennig Cynlluniau Adrannol Sengl sy'n nodi amcanion adrannau'r llywodraeth a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Cyhoeddwyd crynodebau lefel uchel o gynlluniau cyfredol ar 23 Mai[32], ynghyd ag enghreifftiau o sut y bydd rhaglen y Llywodraeth yn cyfrannu at yr SDGau[33].

96. Byddwn yn cyfrannu at gyflawni SDG 8 ac yn anelu at gyflawni cyflogaeth llawn a chynhyrchiol a gwaith gweddus ar gyfer pob menyw a dyn, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc a phobl anabl, trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys:
    - sicrhau sefydlogrwydd y system ariannol a'r amgylchedd macro-economaidd;
    - cefnogi twf economaidd a chynhyrchiant gwell drwy sicrhau bod y gwaith bob amser yn talu ac y caiff pobl eu cefnogi i ddod o hyd i waith a symud ymlaen yn y gwaith; a
    - helpu i leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd drwy'r system les a'r farchnad lafur.

97. Mae'r egwyddor cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal eisoes wedi'i diogelu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

98. Mae rhagor o wybodaeth am ymagwedd y DU tuag at Agenda 2030 a'r SDG ar gael ar-lein[34].

[32] https://www.gov.uk/government/collections/a-country-that-works-for-everyone-the-governments-plan
[33] https://www.gov.uk/government/publications/implementing-the-sustainable-development-goals/implementing-the-sustainable-development-goals
[34] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/603500/Agenda-2030-Report4.pdf

# Adran 3: Safon byw digonol a diogelwch cymdeithasol – ymateb i argymhellion ym mharagraff 59 (a-e) y sylwadau terfynol

## Argymhelliad 59a

99. Mae Llywodraeth y DU yn gwbl ymrwymedig i ddarparu cymorth ariannol i'r rhai sydd ei angen. Rydym yn darparu ystod eang o fudd-daliadau, gan gynnwys elfennau cymorth ychwanegol i adlewyrchu anghenion ariannol pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau hirdymor yn well.

100. Amcangyfrifwn y byddwn yn gwario £54 biliwn yn 2018/19 ar fudd-daliadau i gefnogi'r rhai hynny â chyflyrau iechyd ac anabledd hirdymor, i fyny o £44.7 biliwn yn 2010/11 - yr uchaf erioed.

101. Mae'r ffordd rydym yn darparu budd-daliadau hefyd yn newid, rydym yn disodli chwe budd-dal etifeddiaeth (megis Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) drwy un system syml, o'r enw UC [Credyd Cynhwysol]. Mae pobl anabl yn hawlio gwahanol elfennau o UC yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

**Credyd Cynhwysol**

102. Mae UC yn annog pobl i weithio. Mae'n disodli lwfansau a phremiymau cymhleth a dryslyd yr hen system, lle gallai unigolyn anabl oedd yn dewis gweithio fod mewn sefyllfa waeth o safbwnt ariannol neu gael ei anghymhwyso rhag cymorth ariannol penodol.

103. Rydym wedi cynyddu'r gyfradd uwch ar gyfer pobl ag anabledd mwy difrifol. Mae hyn yn caniatáu mwy o gymorth ariannol ar gyfer llawer o bobl yn y Grŵp Cynnal nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn pob premiwm posib. Mae'r gyfradd hon yn daladwy yn seiliedig ar ganlyniad WCA, a ddefnyddir i benderfynu a oes gan yr hawlydd allu cyfyngedig ar gyfer gwaith, neu allu cyfyngedig ar gyfer gwaith a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, neu a yw'n ffit i weithio.

104. Ar hyn o bryd nid ydym yn mudo unrhyw hawlwyr o fudd-daliadau etifeddol i UC os nad yw eu hamgylchiadau wedi newid. O 2019, pan fyddwn yn dechrau mudo hawlwyr, bydd cartrefi yn cael diogelwch pontio yn erbyn unrhyw ddiffyg rhwng eu

hawl UC a'u budd-dal etifeddol. Ni fydd unrhyw un yn colli arian ar yr adeg mudo yn absenoldeb newid mewn amgylchiadau.

**Taliad Annibyniaeth Personol**

105. Mae gwariant ar gyfer y budd-daliadau anabledd â chostau ychwanegol a arweir gan alw, sef PIP, Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Lwfans Gweini (AA), wedi cynyddu £5.4 biliwn ers 2010, ac mae hyn ar y lefel uchaf erioed eleni, sef £24.9 biliwn. Bydd gwario ar y budd-daliadau hyn yn uwch bob blwyddyn tan 2022 nag oedd yn 2010.

106. Mae PIP, sy'n disodli DLA ar gyfer pobl o oedran gweithio, yn fudd-dal newydd â mwy o ffocws sy'n darparu cymorth di-dreth anghyfrannnol heb brawf modd i bobl anabl y mae ei angen fwyaf arnynt ac yn cyfrannu at gostau ychwanegol pobl anabl i'w helpu i fyw bywydau llawn, gweithredol ac annibynnol. Mae ar gael i unigolion ni waeth beth yw eu gwaith, eu statws addysg neu hyfforddiant. Datblygwyd PIP trwy ymgynghori'n helaeth ag arbenigwyr mewn anabledd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl anabl a'u sefydliadau cynrychioliadol. Gellir talu PIP ar un o wyth cyfradd, sy'n amrywio rhwng £22.65 a £145.35 yr wythnos (£1,177.80 a £7,558.20 y flwyddyn).

107. Mae bron i 1.8 miliwn o bobl yn derbyn PIP erbyn hyn. Yn ogystal, mae rhagor o gymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf - yn gyffredinol, mae 30% o hawlwyr yn derbyn y lefel uchaf o gymorth o dan PIP o gymharu â 15% o hawlwyr oedran gweithio o dan y system flaenorol, DLA.

**Cymorth anabledd etifeddol**

108. Mae ESA yn fudd-dal newydd sy'n rhoi cymorth i bobl â chyflwr iechyd neu anabledd ac sy'n wynebu rhwystrau i waith. Mae'n ystyried yr hyn y gall rhywun ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allant ei wneud. Mae ESA yn integreiddio budd-dal cyfrannol a budd-dal ar sail incwm mewn un strwythur.

109. O Ebrill 2017, mae hawlwyr newydd ESA yn derbyn cyfradd o fudd-daliadau sy'n gyfwerth â rhai sy'n chwilio am waith heb gyflyrau iechyd, ac rydym wedi diogleu rheoliadau hawlwyr presennol sy'n gadael dros dro, er enghraifft i roi cynnig ar weithio ond yna'n dychwelyd. Nid oedd y newid hwn yn effeithio ar unrhyw un y mae ei allu i weithio wedi'i gyfyngu'n sylweddol gan gyflwr iechyd.

110. Mae'r newid hwn yn galluogi'r Llywodraeth i ganolbwyntio arian ar ddarparu cymorth cyflogaeth ymarferol a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i gyfleoedd bywyd y rhai sydd â gallu cyfyngedig i weithio. Mae'r cyllid newydd hwn gwerth £60 miliwn yn 2017/18, yn codi i £100 miliwn yn 2020/21, a bydd yn cefnogi'r rhai sydd â gallu cyfyngedig i weithio i symud tuag at gyflogaeth addas.

111. Er mwyn sicrhau bod effaith y newidiadau hyn yn cael ei gwireddu'n llawn, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hasesiad o effeithiau newid yr elfen weithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith ar 20 Gorffennaf 2015[35]. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghylch y prif grwpiau a effeithiwyd, ni fydd unrhyw deuluoedd yn gweld colled ariannol o ganlyniad i'r polisi.

112. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddarparu system nawdd cymdeithasol wedi'i seilio ar hawliau sy'n gwbl hygyrch i bawb, â'r hawl i eiriolaeth annibynnol i'r rhai sydd ei hangen. Mae rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar gyfer pobl anabl yn cael eu datganoli i'r Alban. Y rhain yw DLA, PIP ac AA. Nod y budd-daliadau hyn yw helpu pobl â'r costau ychwanegol a achosir o ganlyniad i'w hanabledd neu gyflwr, a byddant yn helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned. Mae'r budd-daliadau hyn yn cael eu cyd-gynllunio â phobl sy'n derbyn budd-daliadau, i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion pobl ac yn sicrhau urddas a pharch.

## Argymhelliad 59b

113. Ers 2010, ac ym mhob Cyllideb flynyddol, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dadansoddiad cronnus o effeithiau ein polisïau treth, lles a gwariant cyhoeddus ar gartrefi. Mae hefyd wedi cyhoeddi Asesiadau Effaith o newidiadau unigol ar les a'r defnydd o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnal asesiad cronnus o ddiwygio lles oherwydd ni ellir modelu effeithiau llawn holl wariant y llywodraeth, megis ar addysg, iechyd a chymorth anariannol arall ar gartrefi penodol yn ddibynadwy.

## Argymhelliad 59c

114. Nodir y meini prawf cymhwysedd ar gyfer PIP ac UC ac ymagwedd yr WCA yn ein hymateb i argymhellion 57c a 59a.

115. Mae PIP yn fudd-dal newydd â mwy o ffocws sy'n darparu cymorth di-dreth anghyfrannnol heb brawf modd i bobl anabl y mae ei angen fwyaf arnynt ac yn cyfrannu at gostau ychwanegol pobl anabl i'w helpu i fyw bywydau llawn, gweithredol ac annibynnol. Mae'r asesiad PIP yn ystyried effaith gyffredinol cyflwr iechyd neu amhariad ar allu ymarferol yr hawlydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiagnosis penodol. Bwriedir i'r meini prawf cymhwysedd gynrychioli dewis amgen rhesymol am effaith costau cysylltiedig ag anabledd ar unigolion. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd gan unigolion sy'n profi anawsterau wrth fynd allan filiau

[35] http://www.parliament.uk/documents/impact-assessments/IA15-006B.pdf

cyfleustodau uwch, tra bod y rhai sydd angen cymorth i gynllunio taith a symud o gwmpas yn debygol o wynebu costau trafnidiaeth uwch.

116. Rydym bob amser yn edrych ar ddulliau o wella profiad cyffredinol yr hawlydd PIP. Rydym wedi darparu nifer o welliannau i daith y cwsmer; cyfathrebiadau megis llythyrau a negeseuon testun; yr asesiad; a'n penderfyniadau.

117. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau pellach, er enghraifft:

- archwilio opsiynau i recordio asesiadau PIP wyneb yn wyneb ar fideo os yw'r hawlydd yn dewis hynny
- comisiynu contractwyr allanol i gynnal ymchwil annibynnol i gefnogi gwelliannau i'r holiadur PIP2, 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi'
- cyflwyno cyfarwyddyd diwygiedig a fydd yn sicrhau bod y rhai sy'n derbyn y lefel uchaf o fudd-daliadau, ag anghenion na fydd yn gwella, yn cael dyfarniad parhaus ac adolygiad cyffyrddiad ysgafn ar ôl 10 mlynedd.

118. Fe wnaeth Uchel Lys Cymru a Lloegr neilltuo'r Rheoliadau Taliad Annibyniaeth Personol (Diwygio) 2017 mewn perthynas â gweithgarwch symudedd 1 ym mis Rhagfyr 2017. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ar 19 Ionawr 2018 na fyddai'n apelio'r dyfarniad.

Ar 25 Mehefin 2018, newidiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei chyfarwyddyd i adlewyrchu dyfarniad cynharach y Tribiwnlys Uwch ("MH") o fis Tachwedd 2016 y ceisiodd rheoliadau 2017 ei wrthdroi. Ar ben hynny, dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ymarfer weinyddol gymhleth ar 25 Mehefin 2018 i nodi hawlwyr a allai fod â hawl i ddyfarniad PIP uwch. Caiff holl daliadau unigolion y pennir bod y dyfarniad wedi effeithio arnynt eu hôl-ddyddio i'r dyddiad effeithiol yn hawliad pob unigolyn, sef, yn y rhan fwyaf o achosion, naill ai dyddiad y dyfarniad MH (28 Tachwedd 2016) neu ddyddiad yr hawliad, p'un bynnag sy'n ddiweddarach. Erbyn hyn rydym yn disgwyl y bydd oddeutu 200,000 o hawlwyr ym Mhrydain Fawr ar eu hennill erbyn 2023/24 o ganlyniad i weithredu'r dyfarniad hwn.

119. Ar 25 Mehefin 2018, newidiodd y DWP ei gyfarwyddyd i adlewyrchu dyfarniad cynt yr Uwch Dribiwnlys (“MH”) o fis Tachwedd 2016, y ceisiodd rheoliadau 2017 eu gwrthdroi. Ar ben hynny, dechreuodd y DWP broses weinyddol gymhleth ar 25 Mehefin 2018 i adnabod hawlwyr y gallai fod ganddynt hawl i ddyfarniad PIP uwch. Caiff taliadau i unrhyw un y mae’r dyfarniad yn effeithio arnynt eu hôl-ddyddio i ddyddiad effeithiol hawl pob unigolyn – i’r rhan fwyaf, hwn fydd dyddiad dyfarniad MH (28 Tachwedd 2016) neu ddyddiad yr hawliad, pa un bynnag sydd ddiweddaraf. Disgwyliwn, felly, y bydd oddeutu 200,000 o hawlwyr ym Mhrydain Fawr ar eu hennill erbyn 2023/24 o ganlyniad i weithredu’r dyfarniad hwn.

120. Er nad oedd dyfarniad yr Uchel Lys yn gymwys i'r ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon, gwnaed diwygiadau cyfatebol drwy Reoliadau Taliad Annibyniaeth Personol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2018[36]. Mae'r Adran Gymunedau'n bwriadu adlewyrchu ymagwedd yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas ag ailystyried pob achos PIP a allai fod wedi'i effeithio gan y dyfarniad.

## Argymhelliad 59d

121. Yn gyfnodol mae'r Llywodraeth yn asesu'r gofynion adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr fel rhan o bob Adolygiad o Wariant. Wedi'u llywio gan gyngor gan adrannau ar draws y Llywodraeth, mae Trysorlys EM a Gweinidogion yn penderfynu ar gyfanswm y cyllid y bydd ei angen ar lywodraeth leol dros y cyfnod i barhau i fod yn gynaliadwy wrth gyflawni amcanion y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth eisoes yn gweithio gyda chynghorau lleol ar Adolygiad o Gyllido Teg[37], i ystyried yn drylwyr sut i gyflwyno ymagwedd mwy diweddar, tryloyw ac ymatebol tuag at ariannu gwasanaethau lleol.

122. Mae Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y cyllid a ddyrennir ar gyfer gofal cymdeithasol o fewn y setliad cyffredinol yn cael ei flaenoriaethu i gynnal cyfran Llywodraeth Cymru o wariant craidd ar lefel 2017/18.

123. Ar gyfer 2018-19, mae'r setliad hwn yn cynnwys dros £90 miliwn a ddarperir ar hyn o bryd fel grantiau penodol sy'n cwmpasu £30 miliwn o grantiau gofal cymdeithasol, £27 miliwn ar gyfer y Grant Byw'n Annibynnol a £35 miliwn o'r Grant Refeniw Sengl.

124. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i ddarparu £501 miliwn dros gyfnod o bedair blynedd o 2016/17 i 2019/20 i liniaru'r cyfnod pontio i hawliau budd-daliadau lles newydd. Mae hyn yn cynnwys cyllid penodol o £145 miliwn ar gyfer pobl ag anabledd. Darperir y cymorth hwn ar ffurf cymorth ariannol uniongyrchol i hawlwyr yr effeithir arnynt.

125. Yn gyffredinol, gwneir taliadau lliniaru am gyfnod o hyd at un flwyddyn galendr. Bydd angen cymeradwyaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar gyfer unrhyw newid swm neu hyd y cynlluniau lliniaru statudol presennol, nad yw'n bosib yn absenoldeb llywodraeth.

[36] http://www.legislation.gov.uk/nisr/2018/121/contents/made
[37] https://www.gov.uk/government/consultations/fair-funding-review-a-review-of-relative-needs-and-resources

126. Ochr yn ochr â'r dyraniad cyllido cyfredol, mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i adolygu'r cynlluniau lliniaru lles yn y flwyddyn ariannol 2018/19.

127. Mae deg o'r un ar ddeg o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n cael eu datganoli i'r Alban yn cael eu harwain gan alw: caiff gwariant ei yrru gan y nifer o bobl sydd â hawliad, yn seiliedig ar gyfraddau a meini prawf cymhwysedd a osodir mewn deddfwriaeth, yn hytrach na'r swm a ddyrennir mewn cyllideb. Bydd y cyllid ar gyfer budd-daliadau presennol yn cael ei drosglwyddo drwy'r Fframwaith Cyllidol, ond bydd cynnydd yn y gwariant a arweinir gan alw a dewisiadau polisi newydd sy'n arwain at wariant ychwanegol yn gofyn am sicrwydd cyllideb newydd, wedi'i chyllido o amlen gyllideb yr Alban.

## Argymhelliad 59e

128. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod amodoldeb a sancsiynau yn rhan bwysig o system les deg ac effeithiol. Mae'n briodol bod system ar waith i annog hawlwyr i wneud popeth y gallant i baratoi ar gyfer gwaith neu ddod o hyd iddo.

129. Rydym yn adolygu gweithrediad y polisïau a phrosesau amodoldeb a sancsiynau yn barhaus i sicrhau bod y system yn glir, deg ac effeithiol wrth hyrwyddo ymddygiadau positif.

130. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd deall sut mae cyflwr iechyd meddwl yn effeithio ar allu rhywun i baratoi ar gyfer gwaith a chwilio amdano. Dyna pam rydym wedi gwella hyfforddiant Hyfforddwyr Gwaith, gan gynnig hyfforddiant iechyd meddwl ychwanegol a chynyddu'r nifer o Gynghorwyr Cyflogaeth Anabledd a all ddarparu cymorth ychwanegol.

131. Caiff gofynion amodoldeb eu teilwra i anghenion ac amgylchiadau'r hawlydd, a rhaid iddynt fod yn rhesymol ac yn gyraeddadwy ar gyfer yr hawlydd unigol. Dylid adolygu'r cymysgedd o weithgareddau gwirfoddol a gorfodol yn barhaus, er mwyn helpu'r hawlydd i baratoi ar gyfer gwaith, wrth gydnabod y cyflwr iechyd neu anabledd.

132. Yn ESA, dim ond y rhai hynny sydd yn y Grŵp Gweithgarwch Cysylltiedig â Gwaith (WRAG) sydd â gofynion amodoldeb gorfodol a gallant, felly, gael eu sancsiynu. Gellir gofyn iddynt fynychu cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith a pharatoi am gymryd gwaith i'w helpu i symud yn agosach at waith, a gellir eu sancsiynu os na fyddant yn gwneud hynny heb reswm da. Fodd bynnag, nid oes angen iddynt chwilio am waith neu fod ar gael ar gyfer gwaith ac ni ellir eu sancsiynu os na fyddant yn gwneud hyn.

133. Os gwneir atgyfeiriad am sancsiwn, bydd Penderfynwr yn ystyried holl amgylchiadau unigol yr hawlydd, gan gynnwys unrhyw gyflwr iechyd neu anabledd, ac unrhyw dystiolaeth o reswm da dros beidio â chyflawni eu gofynion amodoldeb cyn penderfynu ynghylch sancsiwn.

134. Fel yr esboniwyd eisoes yn ein hymateb i Argymhelliad 57c, nid yw gosod sancsiwn yn rhywbeth rydym yn ei wneud heb feddwl. Rhoddir pob cyfle i hawlwyr esbonio pam eu bod wedi methu bodloni eu gofynion cytunedig ynghylch amodau, cyn gwneud penderfyniad. Ym mis Chwefror 2018, y ganran o hawlwyr UC â brofodd gostyngiad yn eu taliad oherwydd sancsiwn oedd 4.1%, i lawr 0.5 pwynt canran o fis Tachwedd 2017. Canran yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith â gostyngiad yn eu taliad oherwydd sancsiwn ym mis Medi 2017 oedd 0.3%. Mae canran yr hawlwyr ESA â gostyngiad yn eu taliad oherwydd sancsiwn wedi disgyn 0.1 pwynt canran i 0.2% o fis Mehefin 2017.

135. Ar gyfer y lleiafrif o hawlwyr sy'n cael eu sancsiynu, mae gennym system sefydledig o daliadau caledi, sydd ar gael fel mesur diogelu os bydd hawlydd yn arddangos na all ddiwallu ei anghenion uniongyrchol a mwyaf hanfodol, gan gynnwys llety, gwres, bwyd a hylendid, o ganlyniad i'w sancsiwn.

136. Gall teuluoedd ac unigolion yn yr Alban sydd angen cymorth brys wneud cais am grant drwy Gronfa Lles yr Alban[38]. Mae'r gronfa'n hollbwysig i bobl ledled yr Alban, gan ddarparu £38 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r gronfa ar ran Llywodraeth yr Alban.  O 1 Ebrill 2013 i 31 Rhagfyr 2017, mae 285,720 o gartrefi unigol wedi cael cymorth gwerht £155.8 miliwn.

[38] https://beta.gov.scot/policies/social-security/income-related-benefits/

# Adran 4: Gwybodaeth ddilynol ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ym mharagraff 114 adroddiad ei ymchwiliad

137. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth bellach, yn dilyn ymateb y DU ar 3 Tachwedd 2016 (cyf. CU CRPD/C/17/R.3) mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei ymchwiliad a gynhaliwyd o dan erthygl 6 Protocol Dewisol i'r Confensiwn. Lle rydym eisoes wedi darparu gwybodaeth berthnasol yn gynharach yn yr ymateb hwn, rydym yn cyfeirio'n ôl at hynny.

## Argymhelliad 114a

138. Mae'r ymateb cynharach i 59b yn nodi ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at ddadansoddiad cronnus o effeithiau ein polisïau treth, lles a gwariant cyhoeddus ar gartrefi.

## Argymhelliad 114b

139. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y rhwymedigaethau cyfreithiol a roddir ar y sector cyhoeddus o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[39] (PSED) a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu dull o nodi effeithiau anfwriadol neu anghymesur polisïau ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl anabl neu grwpiau penodol o bobl anabl.

140. Mae'r PSED yn gosod dyletswydd cydraddoldeb ragweithiol ar gyrff cyhoeddus, a'r rhai sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus, i ystyried effeithiau posib penderfyniadau allweddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Rhaid i gyrff cyhoeddus allu dangos sut maent wedi ystyried materion cydraddoldeb wrth iddynt ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, gwasanaethau a phrosesau. Mae'r ymagwedd hon hefyd yn sicrhau bod gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu swyddogaethau ar ran cyrff sector cyhoeddus yr un rhwymedigaethau i ystyried materion cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau allweddol ynghylch gwasanaethau cyhoeddus.

[39] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/2260/contents/made

141. Anogir cyrff sector cyhoeddus i gasglu data am ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynnal dadansoddiad cydraddoldeb a fydd yn llywio penderfyniadau ar bolisi a darparu gwasanaethau, gan gynnwys ymgynghori â grwpiau anabl lle bo'n berthnasol. Lle mae'r dadansoddiad cydraddoldeb yn nodi effeithiau anghymesur ar bobl anabl, dylai sefydliadau ystyried opsiynau ar gyfer dileu neu leihau'r tebygrwydd o ganlyniadau negyddol. Gall hyn gynnwys addasiadau i'r ymagwedd gyffredinol, a mesurau i liniaru'r effeithiau anghymesur posib neu drefniadau pontio.

142. Cred y DU fod y PSED yn cyd-fynd ag ymagwedd seiliedig ar hawliau. Mae'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar bob corff cyhoeddus i ystyried effaith polisïau ar bobl anabl. Mae hyn hefyd yn golygu ystyried sut mae polisïau'n effeithio ar sut mae pobl yn gallu byw eu bywydau. Yn ogystal, mae Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymestyn i'r DU gyfan, yn rhoi effaith bellach i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i nodir yn y Ddeddf (Hawliau'r Confensiwn). Mae'r Ddeddf yn mynnu: i bob deddfwriaeth gael ei dehongli a chael effaith, cyn belled â phosib, mewn modd sy'n gydnaws â Hawliau'r Confensiwn; y Gweinidog yn cyflwyno Bil i'r Senedd i wneud datganiad ar gydnawsedd y Bil â Hawliau'r Confensiwn; a'i wneud yn anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu'n anghydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

143. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 yn creu gwasanaeth cyhoeddus newydd i'r Alban, gan ategu'r broses o bontio un ar ddeg o fudd-daliadau lles yn ddiogel, gan gynnwys budd-daliadau anabledd. Dyma'r trosglwyddiad mwyaf o bwerau ers creu Senedd yr Alban ym 1999. Llywiwyd y Ddeddf gan randdeiliaid, gan gynnwys llawer o sefydliadau pobl anabl. Mae'r Ddeddf yn creu system unigryw seiliedig ar hawliau, gydag urddas, tegwch a pharch wrth ei graidd. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i wella'r ffordd y caiff budd-daliadau eu darparu ar gyfer pobl anabl drwy waredu rhwystrau diangen i hawlio cymorth, a lleihau'r nifer o asesiadau wyneb yn wyneb. Mae'r Ddeddf yn cynnwys yr hawl i eiriolaeth annibynnol ar gyfer y rhai ag anabledd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ymgysylltu â'r system, gan gynnwys yr hawl i gael cefnogwr ym mhob cam o'r broses a'r hawl i herio penderfyniadau heb dorri cymorth ariannol.

144. Mae'r ymateb i 59b yn nodi ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at ddadansoddiad cronnus o effeithiau ein polisïau treth, lles a gwariant cyhoeddus ar gartrefi.

## Argymhelliad 114c

145. Mae'r DU wedi ymrwymo i alluogi pobl anabl i gael mwy o ymreolaeth, dewis a rheolaeth. Yn Adran 1 nodom Ddeddf Gofal 2014, sydd â'r cysyniad o fyw'n annibynnol fel rhan graidd o'r egwyddor les, fel enghraifft o hyn. Mae enghreifftiau

eraill yn cynnwys Mynediad i Waith, sy'n helpu pobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn gweithio.

146. Mae ESA yn darparu cymorth i bobl â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n wynebu rhwystrau i weithio ac yn ystyried pa waith y gall unigolyn ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allant ei wneud. Mae ESA yn integreiddio budd-dal cyfrannol ag elfen ar sail incwm mewn un strwythur. Mae hawl yn seiliedig ar asesiad o ymarferoldeb unigolyn ac mae'r budd-dal maent yn ei dderbyn yn cael ei osod yn unol â hynny.

147. Mae pobl y canfuwyd bod ganddynt allu cyfyngedig ar gyfer gwaith a gweithgarwch cysylltiedig â gwaith yn cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth. Mae hawlwyr sydd â hawl i ESA gysylltiedig ag incwm yn gymwys fel mater o drefn i gael Premiwm Anabledd Uwch, ac os ydynt yn derbyn budd-dal cymhwyso megis DLA gofal ar y gyfradd ganol neu uchaf, elfen bywyd beunyddiol PIP neu Daliad Annibynnol y Lluoedd Arfog (AFIP), ac yn byw ar eu pen eu hunain neu'n cael eu trin fel rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain, y Bremiwm Anabledd Difrifol ychwanegol.

148. Rhoddir cymorth i bobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio i baratoi ar gyfer dychwelyd i'r gwaith yn y dyfodol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys hyfforddiant sgiliau, cymorth ariannol a chyfleoedd gwirfoddoli wedi'u teilwra i'r unigolyn. Mae Adran 2 yn darparu rhagor o fanylion am y cymorth hwn, gan gynnwys y Pecyn Cymorth Personol newydd a lansiwyd ym mis Ebrill 2017, ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd ar ESA ac UC.

149. Cyflwynodd yr ymatebion cynharach i argymhellion 45a-e nifer o ymagweddau i gefnogi byw'n annibynnol, trwy bolisi presennol, deddfwriaeth, cyllid sylweddol a ymrwymwyd, diwygio yn y dyfodol, a gwrando ar bobl anabl.

150. Yn ogystal, mae'r nifer o gyllidebau iechyd personol wedi cynyddu 200% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda 22,895 o bobl yn cael cyllideb iechyd personol yn Lloegr yn ystod naw mis cyntaf 2017/18. Yn 2017/18, ehangwyd y rhaglen Gofal Personol Integredig[40] i gynnwys 42 o Grwpiau Comisiynu Clinigol. Fe'i cynllunir i roi mwy o ddewis i bobl ynghylch eu gofal personol, gyda safleoedd yn adrodd am oddeutu 48,000 o gynlluniau gofal ers i'r rhaglen ddechrau. Bwriedir ehangu ymhellach yn 2018/19.

151. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad ar gynyddu hawliau i gyllidebau iechyd personol, a fyddai'n galluogi mynediad gan fwy o bobl anabl. Cyhoeddodd hefyd lansiad Cynllun Peilot Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a fydd yn asesu effaith cael un asesiad iechyd a gofal cymdeithasol a chynllun cyfannol ar gyfer

[40] https://www.england.nhs.uk/ipc/

pob unigolyn sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer 'Asesiad o Anghenion' yn unol â Deddf Gofal 2014.

## Argymhelliad 114d

152. Mae Llywodraeth y DU yn gwbl ymrwymedig i ddarparu cymorth ariannol i'r rhai sydd ei angen. Rydym yn darparu ystod eang o fudd-daliadau, gan gynnwys elfennau cymorth ychwanegol i adlewyrchu anghenion ariannol pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau hirdymor yn well, a'r costau ychwanegol y gallant eu tynnu, fel y'i nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 59a.

153. O fis Ebrill 2018 ymlaen mae cyfran uwch o bobl yn cael y gwerth uchaf o ddyfarniad nag o'r blaen. Mae 30% o dderbynwyr presennol PIP yn ennill y lefel uchaf o gymorth o gymharu â 15% ar gyfer DLA, pan gyflwynwyd PIP yn gyntaf. Mae PIP hefyd yn sicrhau cydraddoldeb agosach rhwng y rhai â chyflyrau iechyd meddwl a chorfforol, nad oedd yn wir â'r DLA. Felly, mae 32% o dderbynwyr PIP â chyflwr iechyd meddwl yn derbyn yr elfen symudedd cyfradd uwch o gymharu â 10% ar gyfer y DLA cyfwerth, ac mae 66% o dderbynwyr PIP â chyflwr iechyd meddwl yn derbyn yr elfen fyw ddyddiol gyfradd uwch o gymharu â 22% ar gyfer y DLA cyfwerth.

154. Cynyddir y DLA a'r PIP yn unol â chwyddiant. Er enghraifft, rydym wedi cynyddu cyfradd y DLA a delir i'r plant mwyaf anabl fwy na £100 y mis ers 2010. Rydym hefyd wedi cynyddu cyfraddau uwch PIP bron £570 y flwyddyn ei gyflwyno yn 2013.

155. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd cadw pobl yn symudol sy'n eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas. Mae'r Cynllun Motability[41] yn galluogi pobl anabl i gyfnewid elfen symudedd cyfradd uwch DLA, elfen symudedd cyfradd uwch PIP, Atodiad Symudedd Pensiynau Rhyfel neu ddyfarniad AFIP i brydlesu car, sgwter neu gadair olwyn bŵer newydd. Mae mwy o bobl ar y Cynllun Motability nag yn 2010. Gweithiodd Llywodraeth y DU â Motability i gynllunio pecyn cymorth pontio helaeth gwerth £175 miliwn i hawlwyr DLA sy'n colli hawl i'r Cynllun yn dilyn ailasesiad PIP er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn symudol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyfandaliad o hyd at £2,000, yr opsiwn i ymestyn eu prydles am 6 mis a'r hawl i brynu eu car. Mae'r Cynllun yn boblogaidd ymhliyh hawlwyr - mae oddeutu traean o'r rhai sy'n gymwys yn dewis ymuno ac mae lefelau boddhad yn uchel (98%).

156. Mae ein hymatebion i 45c a 45e yn nodi'r buddsoddiad sylweddol mewn gofal cymdeithasol, gyda Chynghorau'n cael mynediad at hyd at £9.4 biliwn o gyllid mwy

41 https://www.motability.co.uk/

penodol ar gyfer gofal cymdeithasol rhwng 2017/18 a 2019/20. Bydd hyn yn sicrhau y gall cynghorau gynyddu gallu'r system gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl ag anableddau.

157. Mae cynlluniau adolygu gwariant ar gyfer gofal cymdeithasol yn parhau i ystyried anghenion y rhai sy'n defnyddio gofal, ac rydym yn monitro risgiau yn y system ofal yn rheolaidd, gan gynnwys cysylltiadau â chyllid.

158. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Ymgynghorol y Gyllideb ar gyfer Cydraddoldeb[42] i gynorthwyo wrth ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn ein cynlluniau gwario. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sydd ag arbenigedd a phrofiad ym maes cydraddoldeb, gan gynnwys Anabledd Cymru.

159. Mae rôl y grŵp yn cynnwys: cynorthwyo wrth ddadansoddi tystiolaeth gydraddoldeb i wella Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb o'r Gyllideb gan Lywodraeth Cymru (EIA) yn y dyfodol; a chynyddu'r ymrwymiad a'r ymwybyddiaeth o brif ffrydio cydraddoldeb mewn cyllidebau yn y dyfodol ar draws Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus ehangach Cymru.

## Argymhelliad 114e

160. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus, cyflogwr a darparwr gwasanaeth wneud addasiadau rhesymol i unrhyw elfen o swydd neu wasanaeth sy'n gosod unigolyn anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag unigolyn nad yw'n anabl. Gall hyn gynnwys darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen, neu lle bo hynny'n briodol, darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.

161. Mae'r Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at wybodaeth, ac yn cynnull Tasglu traws-sector ar gyfathrebu hygyrch. Y pwrpas yw gweithio ochr yn ochr ag ystod o randdeiliaid anabledd allanol i sicrhau bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwella ei chyfathrebu â phobl anabl. Rhennir dysgu o'r Tasglu hwn â rhwydwaith cyfathrebu ehangach y llywodraeth, gan sicrhau cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion cyfathrebu pobl anabl.

162. Mewn perthynas â'r gwasanaethau a grybwyllir yn yr argymhelliad, mae'r DWP yn sicrhau bod copïau eraill o gyfathrebiadau'n cael eu cynhyrchu a'u bod yn hawdd eu cyrchu, gan gynnwys braille, print bras a chopïau sain. Mae DWP yn parhau i wella dulliau cyfathrebu â hawlwyr anabl, gan gynnwys defnyddio e-bost, Testun Cenhedlaeth Nesaf sy'n helpu pobl i ddefnyddio'r system ffôn, trefnu

[42] https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/budget-advisory-group-for-equality/?lang=en

ymweliadau cartref neu ystafelloedd cyfweld preifat fel addasiad rhesymol, a'r Gwasanaeth Video Relay sy'n darparu cyfieithiad ar fideo. Mae DWP hefyd wedi ymrwymo i gynhyrchu mwy o gynhyrchion mewn fformat electronig hygyrch a Hawdd ei Ddeall, ac mae'n arwain ar ddatblygu safonau trawslywodraethol ar gyfer Hawdd ei Ddeall.

163. Mae gan yr Alban ddeddfwriaeth sy'n cydnabod Iaith Arwyddion Prydain[43] (BSL). Mae Deddf BSL (Yr Alban) 2015 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion yr Alban i hyrwyddo defnydd a dealltwriaeth o BSL.

## Argymhelliad 114f

164. Mae angen eglurhad ar fynediad pobl anabl i'r llysoedd mewn perthynas â phenderfyniadau budd-daliadau lles a ddadleuir fel y'i dehonglir yn adroddiad ymchwiliad 2016 y Pwyllgor[44]. Nid oedd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion cyn y tribiwnlys haen gyntaf, hyd yn oed cyn cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012[45] ym mis Ebrill 2013, er ei fod ar gael ar gyfer cyngor cyfreithiol. Roedd hyn am fod y tribiwnlys hwn yn anffurfiol ac yn angwrthwynebol, felly nid oedd angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae cymorth cyfreithiol yn parhau i ddarparu mynediad at gyfiawnder i'r rhai sy'n gymwys yn yr achosion blaenoriaeth uchaf, gan gynnwys anghydfodau ag awdurdodau lleol ynghylch gwasanaethau gofal cymunedol ar gyfer pobl anabl, ac ar gyfer hawliadau gwahaniaethu a budd-dal lles sy'n ymwneud â thorri Deddf Cydraddoldeb 2010.

165. Mae cymorth cyfreithiol hefyd ar gael ar gyfer adolygiadau barnwrol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â pholisïau budd-daliadau lles. Darperir cyngor ar gyfer materion gwahaniaethu drwy'r gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil[46], llinell gymorth hygyrch ac offeryn ar-lein, sy'n cynnig amrywiaeth o addasiadau ac addasiadau rhesymol. Nid yw newidiadau o ran cymorth cyfreithiol wedi cyfyngu ar fynediad at y broses apelio. Nid yw ailystyried gorfodol ychwaith, a gyflwynwyd yn 2013 i ganiatáu cywiro penderfyniadau yn gynharach, gyda'r hawl i apelio ar gael o hyd, os oes angen.

166. Caiff system nawdd cymdeithasol newydd yn seiliedig ar hawliau yr Alban ei chyd-gynllunio â phrofiad cyfredol unigolion a fydd wedi'i seilio ar egwyddorion urddas, tegwch a pharch, ac sy'n anelu at wneud penderfyniadau'n gywir y tro

[43] http://www.legislation.gov.uk/asp/2015/11/contents/enacted
[44] Adroddiad ymchwliad UNCRPD (cyf. CU CRPD/C/17/R.3), paragraff 92 http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2f15%2fR.2%2fRev.1&Lang=en .
[45] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/contents
[46] https://www.gov.uk/civil-legal-advice

cyntaf, lle bydd gan unigolyn hawl i ofyn am ail-benderfyniad os ydynt o'r farn nad yw asiantaeth nawdd cymdeithasol yr Alban wedi gwneud y penderfyniad cywir. Os na chaiff yr ail-benderfyniad ei gwblhau o fewn y terfyn amser penodedig, neu os yw'r unigolyn yn anfodlon ar eu hail-benderfyniad, bydd hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Nhribiwnlysoedd yr Alban, a allai, yn amodol ar fodloni amodau penodol, fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor cyfreithiol ond heb fod yn gynrychiolaeth. Lle gellir gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys, bydd cymorth cyfreithiol yn ymgorffori cynrychiolaeth.

# Argymhelliad 114g

167. Mae gan y DU hanes cryf o ymgysylltu â phobl anabl i lywio'r broses o lunio polisïau ar draws y llywodraeth. Fodd bynnag, rydym yn ceisio gwella ein harferion a'n gwasanaethau yn barhaus ac yn cael ein llywio fwyfwy gan bobl anabl. Er enghraifft, byddwn yn ailfywiogi ymgysylltiad ein Swyddfa ar gyfer Materion Anabledd â rhanddeiliaid yn ddiweddarach eleni er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â mwy o Sefydliadau a Arweinir gan Ddefnyddwyr ar gyfer Pobl Anabl, rhanddeiliaid lleol llai ac unigolion.

168. Yn ystod yr ymgynghoriad yn dilyn 'Gwella Bywydau: y Papur Gwyrdd Gwaith, Iechyd ac Anabledd'[47], cawsom oddeutu 6,000 o ymatebion yn dilyn ymgysylltiad agos â rhanddeiliaid a 166 o ddigwyddiadau hygyrch. Llywiodd y safbwyntiau hyn ein strategaeth a'n gweledigaeth i weld miliwn yn fwy o bobl anabl mewn cyflogaeth erbyn 2027, a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2017, 'Gwella Bywydau: dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd'[48].

169. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor, i wireddu ein gweledigaeth a llywio cynllunio'r cymorth a fydd fwyaf defnyddiol. Rydym wedi cydweithio'n agos ag elusennau, sefydliadau cynrychioliadol a rhanddeiliaid, yn ogystal â phobl â chyflyrau iechyd hirdymor eu hunain. Er enghraifft, manteisiom ar arbenigedd grwpiau cynrychiadol rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r meini prawf ar gyfer rhoi terfyn ar ailasesiadau ar gyfer cwsmeriaid â'r cyflyrau iechyd mwyaf difrifol.

170. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hygyrch â rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau pobl anabl, ar gyfer dau ymgynghoriad diweddar ar y Cynllun Gweithredu Hygyrchedd Trafnidiaeth drafft ac ar Adolygiad Diogelwch y

[47] https://www.gov.uk/government/consultations/work-health-and-disability-improving-lives
[48] https://www.gov.uk/government/publications/improving-lives-the-future-of-work-health-and-disability

Strategaeth Buddsoddi[49] mewn Beicio a Cherdded. Mae ymgynghoriad arall ar ehangu cymhwysedd ar gyfer y cynllun Bathodyn Glas[50] sy'n helpu pobl anabl â chyflyrau symudedd difrifol i barcio yn nes at eu cyrchfan wedi derbyn oddeutu 6,000 o ymatebion.

171. Cadeirir Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, ac mae'n cynnwys pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ag ystod o arbenigeddau. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach ar y materion allweddol sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru. Mae hefyd yn fforwm ar gyfer rhannu arfer gorau.

172. Mae Anabledd Cymru wedi derbyn grant o £500,000 o 2017 i 2020, o'n Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, i fod y corff cynrychioliadol ar gyfer pobl anabl a'u sefydliadau yng Nghymru ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau y clywir barn pobl anabl.

173. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol o fudd-daliadau. Mae dros 2,400 o wirfoddolwyr o bob rhan o'r Alban wedi ymuno er mwyn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban fel rhan o'r Paneli Profiad[51]. Mae Llywodraeth yr Alban yn benderfynol y caiff system nawdd cymdeithasol newydd yr Alban ei hadeiladu i gefnogi'r bobl â'r anghenion mwyaf.

## Argymhelliad 114h

174. Mae'r DU yn cydnabod hawliau pob person anabl, gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal y wladwriaeth, i fyw ag urddas, parch ac uniondeb. Rydym yn mynd i'r afael ag ystrydebau, gwahaniaethu, aflonyddu a throseddau casineb trwy ystod eang o raglenni mewn gwahanol sefyllfaoedd.

175. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i fynd i'r afael â Throseddau Casineb Anabledd a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl yn ddifrifol iawn. Mae gennym fframwaith deddfwriaethol cryf i fynd i'r afael â throseddau casineb, gan gynnwys darpariaethau i'r llys gynyddu dedfryd lle'r oedd y drosedd wedi'i hysgogi gan elyniaeth tuag at anabledd unigolyn.

176. Mae gwaith ar y gweill i wella agweddau tuag at bobl anabl ac i gynyddu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Anabledd drwy'r Cynllun Gweithredu

---

49 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/512895/cycling-and-walking-investment-strategy.pdf
50 https://www.gov.uk/browse/driving/disability-health-condition

51 https://beta.gov.scot/policies/social-security/engagement-on-social-security/

Troseddau Casineb[52] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 gan y Swyddfa Gartref. Mae'r cynllun gweithredu pedair blynedd traws-lywodraethol yn canolbwyntio ar bum maes allweddol. Y rhain yw; atal troseddau casineb drwy herio credoau ac agweddau, ymateb i droseddau casineb o fewn ein cymunedau, cynyddu lefelau adrodd am droseddau casineb, gwella cymorth ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb, a meithrin ein dealltwriaeth o droseddau casineb.

177. Mae'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn adnewyddu'r cynllun gweithredu yn ddiweddarach eleni, ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn addas i'r diben o hyd. Mae gan y cynllun gamau penodol sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb ar sail anabledd, ac mae'n cynnwys gwaith i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer gorau ynghylch mynd i'r afael â throseddau casineb, cyfarwyddyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer ddioddefwyr/tystion troseddau casineb sydd ag anabledd dysgu, a phrosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau casineb anabledd. Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda ac i nodi beth arall y gellir ei wneud i ddiogelu dioddefwyr rhag troseddau casineb anabledd.

178. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob ysgol gael polisi ymddygiad â mesurau i atal pob math o fwlio ymhlith disgyblion. Mae ganddynt y rhyddid i ddatblygu eu strategaethau gwrth-fwlio eu hunain sy'n briodol i'w hamgylchedd, ond maent yn atebol i Ofsted.

179. Rydym yn darparu £1.75 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer pedwar sefydliad gwrth-fwlio i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys prosiectau sy'n targedu bwlio grwpiau penodol, megis y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n dioddef gan fwlio cysylltiedig â chasineb, ynghyd â phrosiect i adrodd am fwlio ar-lein. Mae'r prosiect a arweinir gan y Gynghrair Wrth-fwlio'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â bwlio sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Mae'n cynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer athrawon, ynghyd â llinellau cymorth a gwybodaeth ar-lein ar gyfer rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

180. Nod ein Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd yw sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein fel rhan o waith ehangach ar y Siarter Ddigidol[53]. Disgwyliwn i bob safle cyfryngau cymdeithasol gofrestru â'n côd ymarfer a adrodd ar dryloywder diogelwch ar-lein blynyddol i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau safonau cyson. Mae'n ofynnol yn unol â'r côd i wefannau gynnal proses adrodd glir a thryloyw i ddefnyddwyr adrodd am gamdriniaeth sy'n targedu anableddau. Rydym yn annog cwmnïau i nodi'r nifer o adroddiadau am gam-drin sy'n targedu

[52] https://www.gov.uk/government/publications/hate-crime-action-plan-2016
[53] https://www.gov.uk/government/publications/digital-charter

anableddau yn eu hadroddiad tryloywder. Yn ddiweddar, cyhoeddom Bapur Gwyn, sydd ar gyrraedd, a fydd yn cyflwyno cynigion i ddeddfwriaeth yn y dyfodol gynnwys yr ystod lawn o fathau o niwed cyfreithlon ac anghyfreithlon ar-lein.

181. Mae Hyderus o ran Anabledd wedi cofrestru dros 7,000 o fusnesau. Mae'n cael cyflogwyr i feddwl yn wahanol am anabledd ac i weithredu er mwyn gwella sut maent yn denu, yn recriwtio ac yn cadw gweithwyr anabl.

182. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fynd i'r afael â throseddau casineb mewn partneriaeth ag aelodau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru (HCCJBC), gan gynnwys y pedwar Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, Cymorth i Ddioddefwyr a chynrychiolwyr eraill o'r trydydd sector. Mae'r HCCJBC yn gweithio gyda'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru, i archwilio sut y gallwn wella adrodd am droseddau casineb anabledd, cymorth i ddioddefwyr a dod â chyflawnwyr i gyfiawnder.

183. Yn 2016/17, adroddwyd 338 o achosion troseddau casineb anabledd wrth yr heddlu yng Nghymru, yn gynnydd o 39% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos yn rhannol gyfraddau uwch o adrodd, sy'n adlewyrchu gwaith Llywodraeth Cymru, yr Heddlu a'r trydydd sector i annog dioddefwyr i adrodd a gwella'r broses trin achosion. Mae cyfraddau boddhad â sut mae achosion yn cael eu trin wedi iddynt gael eu hadrodd yn uchel. Er enghraifft, yn 2016/17 mae ffigurau Heddlu Gwent yn dangos bod 90% o bobl yn gwbl fodlon neu'n fodlon iawn ar y driniaeth a gawsant gan swyddogion, ac roedd 74% yn gwbl fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad cyffredinol ar ôl adrodd.

184. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban raglen waith uchelgeisiol i fynd i'r afael â throseddau casineb ac i adeiladu cydlyniant cymunedol. Ym mis Hydref 2017, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgyrch 'Hate Has No Home in Scotland' i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i adrodd arnynt. Roedd gwerthusiad yr ymgyrch yn gadarnhaol, gan ddangos ei bod yn arbennig o lwyddiannus ymhlith y rhai sydd wedi dioddef trosedd casineb. Ar 31 Mai 2018, cyhoeddodd yr Arglwydd Bracadale ei adolygiad o ddeddfwriaeth troseddau casineb yn yr Alban[54]. Mae Llywodraeth yr Alban wedi derbyn ei argymhelliad i gynnwys holl ddeddfwriaeth troseddau casineb yr Alban mewn un statud newydd ar gyfer troseddau casineb, a bydd yn defnyddio ei adroddiad a'i argymhellion fel sail ar gyfer ymgynghori ar fanylion yr hyn y dylid ei gynnwys mewn bil newydd ar gyfer troseddau casineb.

## Argymhelliad 114i

[54] https://www.gov.scot/Publications/2018/05/8696

185. Fel yr eglurwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 2, mae Llywodraeth y DU yn credu bod y PSED yn darparu dull digonol ar gyfer nodi effeithiau anfwriadol neu anghymesur polisïau ar y rhai â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl anabl.

186. Mae Llywodraeth y DU yn cynnal dadansoddiad cydraddoldeb yn rheolaidd ac yn rhoi ystyriaeth i effeithiau posib penderfyniadau allweddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus allu dangos sut maent wedi ystyried materion cydraddoldeb wrth iddynt ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, gwasanaethau, deddfwriaeth a phrosesau.

## Argymhelliad 114j

187. Fel y'i amlinellir eisoes yn ein hymateb o dan Argymhellion 2 a 9, mae'r PSED yn darparu dull ar gyfer nodi effeithiau anfwriadol neu anghymesur polisïau a rhaglenni ar bobl anabl neu grwpiau penodol o bobl anabl.

188. Mae polisïau cydraddoldeb, gan gynnwys polisïau anabledd, eisoes wedi'u prif ffrydio ar draws holl adrannau llywodraeth y DU a chyrff y sector cyhoeddus, ac mae gan bob sefydliad gyfrifoldeb i fonitro effaith eu polisïau unigol ar bobl anabl. Mae hyn yn wir ar gyfer pob polisi, nid polisïau sy'n ymwneud ag anabledd yn unig.

189. I fodloni eu rhwymedigaethau yn unol â PSED, anogir cyrff sector cyhoeddus hefyd i gasglu data ar ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynnal dadansoddiad cydraddoldeb a fydd yn llywio penderfyniadau ar bolisi a darparu gwasanaethau, gan gynnwys ymgynghori â grwpiau anabl lle bo'n berthnasol. Lle mae'r dadansoddiad cydraddoldeb yn nodi effeithiau anghymesur ar bobl anabl, dylai sefydliadau ystyried opsiynau ar gyfer dileu neu leihau'r tebygrwydd o ganlyniadau negyddol. Gall hyn gynnwys addasiadau i'r ymagwedd gyffredinol, mesurau i liniaru'r effeithiau anghymesur posib neu drefniadau pontio.

190. Mae'r gweithgareddau PSED a gweithgareddau cysylltiedig yn darparu dull tryloyw ac effeithiol i fonitro effaith y gwahanol bolisïau a rhaglenni ar bobl anabl ac mae'ncyd-fynd â'r model anabledd sy'n seiliedig ar hawliau dynol, sy'n canolbwyntio ar asesu effeithiau anfwriadol neu anghymesur ar bobl anabl neu grwpiau penodol o bobl anabl.

191. Fel y nodwyd ym mharagraff 133 uchod, mae Deddf Hawliau Dynol 1998[55] yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gweinidog gyflwyno Bil i'r Senedd i wneud datganiad ar gydnawsedd y Mesur â Hawliau'r Confensiwn.

[55] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

192. Mae'r EHRC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r PSED, a gall gymryd camau gorfodi os nad yw corff cyhoeddus wedi cydymffurfio. Mae'r EHRC yn defnyddio ystod o ddulliau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd, o ddarparu cyfarwyddyd i weithgarwch gorfodi lle mae'n ystyried bod budd strategol. Mae gan yr EHRC rôl statudol hefyd, wrth hybu ymwybyddiaeth ac annog cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998; yn ogystal mae ganddo rai pwerau sy'n ymwneud â'r llysoedd, er enghraifft i ymyrryd mewn achosion hawliau dynol.

193. Mae Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol Senedd y DU hefyd yn craffu ar Filiau Llywodraeth y DU o ran eu cydnawsedd â hawliau dynol.

194. Mae Prif Weinidog yr Alban wedi creu Grŵp Ymgynghorol ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol, sy'n gweithio'n annibynnol ar Lywodraeth yr Alban i ddatblygu argymhellion ar sut y gall yr Alban barhau i arwain trwy esiampl, gan gynnwys hawliau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd y Grŵp Cynghori yn arwain proses gyfranogol a bydd yn adrodd erbyn diwedd 2018. Mae Llywodraeth yr Alban yn croesawu her adeiladol, ac mae'n hapus i gefnogi camau gweithredu sy'n annog sefydliadau cyhoeddus i fynd ymhellach i ymgorffori hawliau dynol wrth wraidd popeth.